POLISI DERBYN

NOD
Nod y cylch yw cynnig gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn o fewn yr oedran priodol, yn unol â'i Bolisi Derbyn

EGWYDDOR
Mae croeso i bob plentyn sydd o fewn yr oedran priodol fynychu'r cylch, waeth beth fo'i anghenion, lliw, hil, iaith, crefydd, dosbarth cymdeithasol neu sefyllfa deuluol.

COD YMARFER
Bydd y cylch yn cydymffurfio â'r amodau cofrestru fel ag a nodir yn y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 parthed oed y plant a'r nifer a ganiateir.

Bydd y Pwyllgor yn mabwysiadu a gweithredu meini prawf derbyn addas ar gyfer y cylch. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu'r meini prawf hyn bydd y Pwyllgor yn sicrhau nad yw yn mynd yn groes i'w bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r meini prawf yn cynnwys:

ystod oedran: 2 i oed ysgol
dyddiadau derbyn: Hanner tymor ar ol i plentyn troi y 2 flwydd oed

dalgylch (os yn berthnasol): Mewn sefyllfa lle bydd ormod o plant eisiau mynych, bydd wnrhai sy'n byw yn y dal gylch yn cael ei blaenoriaethu.

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr gofrestru eu plentyn pan fydd yn dechrau yn y cylch trwy ddefnyddio ffurflen P1.

Mae'r Pwyllgor yn annog rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i sicrhau lle i'w plentyn ddigon ymlaen llaw, ac fe'u gwahoddir i ymweld â'r cylch gyda'u plentyn cyn y dyddiad dechrau.

Ceidw'r Pwyllgor yr hawl i wrthod cais rhiant/gofalwr/gwarcheidwad am le i blentyn nad yw'n cydymffurfio â'r amodau derbyn. Mewn achosion o'r fath, cyflwynir y rhesymau i'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.